

Nodyn Cyngor ar Falconïau ar Adeiladau Preswyl

Mae'r Nodyn Cyngor hwn yn rhoi cyngor ar y risgiau sy'n deillio o falconïau ar adeiladau preswyl. Ysgrifennwyd y Nodyn Cyngor hwn i berchenogion adeiladau, asiantiaid rheoli a phreswylwyr adeiladau preswyl sydd â nifer o anheddau (h.y. blociau o fflatiau), er y gallai'r egwyddorion hefyd fod yn gymwys i fathau eraill o adeiladau.

1. Crynodeb

- 1.1. Gall balconïau sydd wedi'u creu â deunyddiau llosgadwy fod yn ffynhonnell bosib i dân ledaenu'n gyflym ar waliau allanol adeiladau preswyl.
- 1.2. Ni ddylai balconïau beryglu diogelwch preswylwyr drwy alluogi tân i ledaenu'n allanol. Mae [Nodyn Cyngor 14](#) a gyflwynwyd gan Banel Arbenigwyr Diogelwch Llywodraeth y DU yn flaenorol, yn cynghori perchenogion adeiladau i sicrhau eu bod wedi asesu'r risgiau mewn perthynas â waliau allanol. Mae'r nodyn hwn yn egluro'r cyngor mewn perthynas â balconïau.
- 1.3. Dylai perchenogion adeiladau fod yn ymwybodol o'r deunyddiau a ddefnyddir i adeiladu eu waliau allanol, gan gynnwys sut y caiff balconïau eu hadeiladu yn ogystal â'r posibilrwydd o dân yn lledaenu'n llorweddol ac yn fertigol oherwydd y ffordd y mae balconïau wedi'u gosod ar waliau allanol. Dylid ystyried balconïau fel rhan o unrhyw asesiad risg a gaiff ei gynnal.
- 1.4. Y ffordd orau o atal tân rhag lledaenu ar y tu allan yw cael gwared ar unrhyw ddeunydd llosgadwy a ddefnyddir wrth adeiladu a gosod deunydd arall yn ei le a dylid gwneud hyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- 1.5. Dylai perchenogion adeiladau hysbysu preswylwyr am y risgiau y mae deunyddiau llosgadwy ar falconïau yn eu hachosi. Dylent ei gwneud yn glir y gall smygu, defnyddio barbeciwiau a storio eiddo llosgadwy ar falconïau gynyddu'r risg honno.

2. Balconïau

- 2.1. Gall tân ar falconïau ledaenu i falconïau cyfagos neu i mewn i'r adeilad. Os cafodd deunyddiau llosgadwy eu defnyddio ar y balconi neu system y wal allanol, gallai'r tân ledaenu'n gyflym ar draws y ffasâd. Mae mwy o risg os caiff deunyddiau llosgadwy eu defnyddio'n helaeth (h.y. ar loriau a ffasadau balconïau).
- 2.2. Mae barn Llywodraeth Cymru yn cefnogi Panel Arbenigwyr Llywodraeth y DU o ran y ffaith bod y darpariaethau hyn yn gymwys i bob adeilad, ni waeth beth fo'i uchder, a bod angen i berchenogion adeiladau sicrhau nad oes unrhyw falconi yn peryglu diogelwch preswylwyr drwy alluogi tân i ledaenu'n allanol.

- 2.3. Mae'n bosibl bod balconïau ar adeiladau presennol o bob uchder wedi'u hadeiladu gan ddefnyddio deunyddiau llosgadwy (ac eithrio balconïau dianc, a ddylai eisoes fod wedi defnyddio deunyddiau anllosgadwy).
- 2.4. Felly dylai perchenogion adeiladau sicrhau eu bod yn deall y deunyddiau a ddefnyddir wrth adeiladu balconïau sydd eisoes yn bodoli, ni waeth beth fo uchder yr adeilad. Dylai perchenogion adeiladau asesu'r risg sy'n gysylltiedig â tân yn lledaenu'n allanol a chymryd y camau priodol i reoli'r risg hon. Dylai hyn gynnwys asesu p'un a oes trefniadau diogelwch tân digonol ar waith er mwyn atal tân rhag lledaenu.
- 2.5. Os bydd unrhyw amheuaeth ynghylch y deunyddiau a ddefnyddir, neu'r risg cysylltiedig, dylai perchenogion adeiladau geisio cyngor proffesiynol gan weithiwr proffesiynol cymwys ac sydd â'r cymwysterau priodol (h.y. peiriannydd tân neu weithiwr adeiladu proffesiynol sydd â digon o wybodaeth am ddiogelwch tân a phrofiad yn y maes).
- 2.6. Dylai perchenogion adeiladau hefyd sicrhau y caiff unrhyw risgiau y mae balconïau yn eu hachosi, eu hystyried fel rhan o'u hasesiad risg a bod preswylwyr yn derbyn y wybodaeth berthnasol.
- 2.7. Wrth asesu lefel y risg o dân y o falconïau, bydd perchenogion adeiladau a'u cynghorwyr proffesiynol am ystyried pa mor aml y caiff deunyddiau llosgadwy eu defnyddio, geometreg deunyddiau llosgadwy mewn balconïau a waliau allanol a ph'un a oes dyrnfeddi mawr o ddeunyddiau llosgadwy a all helpu i ledaenu tân yn llosgadwy a/neu'n fertigol.
- 2.8. Gall y risg o dân ar falconïau fod yn uwch hefyd os cânt eu defnyddio i storio eitemau, neu drwy gael gwared ar ddeunyddiau smygu yn anniogel a chamddefnyddio barbeciwiau.
- 2.9. Dylai perchenogion adeiladau sicrhau bod polisïau ar waith i nodi'r hyn y gall ac na all preswylwyr ei storio a'i ddefnyddio ar falconïau yn ogystal â'u hadolygu yn sgil y deunyddiau sydd wedi'u defnyddio wrth adeiladu'r balconïau. Dylent hefyd gyfathrebu â phreswylwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall y risgiau hyn.
- 2.10. Cafwyd sawl achos o dân ar falconïau sydd wedi arwain at dân yn lledaenu'n allanol. Cyhoeddodd BRE Global enghreifftiau o hyn yn eu hadroddiad yn 2016 "Fire safety issues with balconies" y gellir cael gafael arno yn: [https://www.bre.co.uk/filelibrary/Fire and Security/FI---Fire-safety-andbalconies-July-16.pdf](https://www.bre.co.uk/filelibrary/Fire%20and%20Security/FI---Fire-safety-andbalconies-July-16.pdf)
- 2.11. Daeth adroddiad y BRE i'r casgliad fod "*...angen i reolwyr ac aseswyr risgiau oll fod yn ystyrllon o'r risg bosibl o dân a all fod yn gysylltiedig â tân ar falconïau sy'n deillio o'r ffordd y cânt eu hymgorffori yn yr adeilad...*". Mae Panel Arbenigwyr Llywodraeth y DU yn cefnogi'r cyngor hwn.
- 2.12. Mae adroddiad BRE Global a ddyfynnir uchod hefyd yn nodi bod deunyddiau a ddefnyddir i atal colli gwres drwy bontio thermol yn achosi risgiau

ychwanegol a allai gynyddu'r risg o dân yn lledaenu. Dylai perchenogion adeiladau ddeall p'un a yw'r deunyddiau hyn yn bresennol a'u hystyried fel rhan o'u hasesiad risg.

3. Pryderon preswylwyr

- 3.1. Dylai preswylwyr sydd â phryderon am ddiogelwch tân eu hadeilad gysylltu â'u hasiant rheoli, cwmni rheoli neu landlord i ddechrau. Dylent allu rhoi gwybodaeth iddynt am drefniadau diogelwch tân yr adeilad a sut y cânt eu rheoli. Dylid ymateb i geisiadau o'r fath yn brydlon.
- 3.2. Os na all preswylwyr gael gafael ar wybodaeth am ddiogelwch tân, neu os nad ydynt yn teimlo bod eu pryderon yn cael eu datrys yn briodol, yna mae gwybodaeth ar wefan Llywodraeth y DU am sefydliadau a all roi cymorth yn: <https://www.gov.uk/guidance/building-safety-programme-other-fire-safetyconcerns>.
- 3.3. Dylid codi unrhyw bryderon brys am ddiogelwch tân gyda'r gwasanaeth tân ac achub lleol.